Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Jenner
# Stryd Hannah
# Y Barri
# CF63 1DG

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Parc Jenner

Mae Ysgol Gynradd Parc Jenner yn Y Barri, yn awdurdod lleol Bro Morgannwg. Mae 257 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed, yn cynnwys 46 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin. Mae chwe dosbarth un oedran, ac un dosbarth oedran cymysg. Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth canolfan adnoddau dysgu hefyd, gyda 12 o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen, ac 11 o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn o ardal ddaearyddol eang o fewn yr awdurdod lleol.

Mae'r cyfartaledd treigl am y tair blynedd ddiwethaf yn dangos bod tua 43% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 18%. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i ychydig iawn o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 32% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%, ond yn cynnwys disgyblion yn nosbarthiadau'r ganolfan adnoddau dysgu. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol neu maent yng ngofal yr awdurdod lleol.

Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref, ac ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ym mis Medi 2010. Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol ym mis Mawrth 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/Schools/SchoolSearch?lang=cy

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Parc Jenner yn hynod gynhwysol ac yn darparu amgylchedd diogel, croesawgar ac ysgogol ar gyfer ei holl ddisgyblion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae athrawon yn meithrin hinsawdd gadarnhaol ar gyfer dysgu, ac yn darparu gweithgareddau diddorol ar gyfer disgyblion sy’n ennyn eu diddordeb yn dda. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith. Fodd bynnag, megis dechrau cyfrannu at beth maent yn ei ddysgu, a sut, y mae llawer o ddisgyblion.

Mae’r pennaeth yn gweithio’n gydwybodol gyda staff ac mae wedi datblygu tîm cryf dros gyfnod i gefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae diwylliant o welliant yn treiddio trwy’r ysgol, ac mae’r pennaeth yn annog y staff i roi cynnig ar ddulliau newydd. Fodd bynnag, mae diffyg ysgogiad wrth fonitro camau gweithredu cynlluniedig ac mae hyn, dros gyfnod, yn golygu bod yna ychydig o faterion pwysig y mae angen i’r ysgol fynd i’r afael â nhw o hyd, er enghraifft i wella medrau disgyblion yn y Gymraeg ac mewn presenoldeb ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn rhoi strategaethau monitro ar waith yn drylwyr i sicrhau gwelliannau

A2 Gwella medrau Cymraeg disgyblion

A3 Gwella presenoldeb

A4 Gwella medrau gwneud penderfyniadau disgyblion er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau annibynnol ynglŷn â beth maent yn ei ddysgu, a sut

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol, mae medrau llythrennedd a medrau cymdeithasol y rhan fwyaf o ddisgyblion ymhell islaw’r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y ganolfan adnoddau dysgu yn cyflawni’n dda yn unol â’u hanghenion a’u galluoedd. Mae’r disgyblion mwy abl yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn dda, ac yn cymhwyso eu medrau’n llwyddiannus i sefyllfaoedd newydd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando hynod effeithiol. Maent yn gwrando’n astud ac yn ystyried safbwyntiau pobl eraill yn barchus. O oedran cynnar, mae llawer o ddisgyblion yn disgrifio eu tasgau’n glir, er enghraifft wrth iddynt ddangos y cylch dŵr yn ymarferol, a thynnu llun patrymau yn y tywod yn arddull Kandinsky. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un o’r disgyblion yn cyfathrebu’n hyderus ac yn siarad â chywirdeb ac aeddfedrwydd. Caiff safonau uchel llafaredd y rhan fwyaf o ddisgyblion effaith gadarnhaol ar eu medrau ysgrifennu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ystod eang o destunau sy’n briodol i’w gallu. Maent yn ynganu geiriau anghyfarwydd yn briodol, gan ddefnyddio strategaethau ffoneg a seiniau i ddarganfod geiriau newydd ac anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am ddigwyddiadau allweddol yn y storïau maent yn eu darllen; er enghraifft, maent yn disgrifio taith tad a mab i’r ysgol yn briodol fanwl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen ystod eang o lyfrau’n briodol gyda brwdfrydedd a dealltwriaeth. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau darllen lefel uwch yn effeithiol, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am effeithiau newid hinsawdd ar yr Antarctig.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio’r medrau ysgrifennu y maent yn eu dysgu mewn gwersi Saesneg yn effeithiol mewn meysydd pwnc eraill. Mae ansawdd eu hysgrifennu estynedig yn dda. Mae bron pob un o’r disgyblion iau yn gwneud cynnydd effeithiol o ran datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ffurfio llythrennau’n gywir, yn cyflwyno eu gwaith yn ddestlus â llawysgrifen ddarllenadwy, ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir, gan gynnwys wrth ysgrifennu’n annibynnol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n glir ac yn ddychmygus, ac mae’r mwyafrif ohonynt yn defnyddio paragraffau ac atalnodi’n gywir. Dangosant ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu a chynulleidfaoedd, er enghraifft wrth ddefnyddio eu dychymyg i ysgrifennu antur gwyliau gan ddefnyddio amrywiaeth o frawddegau agoriadol cyffrous i ennyn diddordeb y darllenydd. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cymhwyso eu medrau meddwl i ysgrifennu llythyr at Richard y Trydydd, gan ymgorffori hen eiriau Saesneg i safon uchel.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn hyblyg mewn ystod o weithgareddau ystyrlon mewn meysydd dysgu a phynciau eraill. Mae disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn cymhwyso eu medrau rhif yn briodol i ddatrys problemau go iawn, er enghraifft wrth gymhwyso eu gwybodaeth am adio a thynnu

wrth brynu a gwerthu bwyd o'r siop fwyd Frasilaidd. Ym Mlwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn casglu gwybodaeth yn llwyddiannus wrth greu graff bar i rannu eu hoff ffrwythau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dewis dulliau cyfrifo hyblyg priodol wrth ddatrys problemau ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur effaith priodoleddau thermol gwahanol ddeunyddiau a'r modd y mae'n effeithio ar ba mor gyflym y mae rhew yn toddi. Defnyddiant strategaethau cyfrifo ffurfiol yn gywir. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio medrau trin data yn fedrus i greu a dadansoddi setiau data sy'n deillio o arbrofion gwyddoniaeth.

Mae mwyafrif medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i gofnodi eu gwaith, ac amrywiaeth o gymwysiadau i gefnogi gwaith mewn pynciau eraill, yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwilio am wybodaeth ar-lein yn fedrus, ac yn defnyddio amrywiaeth o fedrau aml-gyfrwng i gyflwyno gwybodaeth, er enghraifft i ddisgrifio eu tasg ddylunio wrth greu iglw malws melys. Maent yn dechrau datblygu cronfeydd data syml ac ysgrifennu rhaglenni sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion yn deall manteision siarad Cymraeg, ac yn mwynhau dysgu'r iaith. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn cyd-destunau cyfarwydd a ffurfiol, ond prin yw'r rhai sy'n meddu ar eirfa ddigon eang i gymryd rhan yn llwyddiannus mewn sgyrsiau syml. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig yn eu medrau llafaredd Cymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn disgrifio cymeriad o lyfr yn syml ac yn defnyddio geiriau sylfaenol i ddisgrifio eu hemosiynau. Gall lleiafrif o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 ateb a gofyn cwestiynau'n ddigonol. Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddigon cywir yn Gymraeg. Maent yn darllen ag ynganiad addas, ond nid ydynt yn darllen testunau syml yn ddigon rhugl.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwelliant

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn saff yn yr ysgol. Maent yn siarad yn hyderus ac yn falch am eu hysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, ac yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Maent yn garedig ac yn gefnogol i'w gilydd, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ethos cynhwysol a gofalgar yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin oedolion ac ymwelwyr â pharch ac aeddfedrwydd. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn trafod gwaith presennol a blaenorol â brwdfrydedd. Maent yn mwynhau'r testunau y maent yn eu hastudio, ac yn fodlon gweithio'n galed i gyflawni eu gorau, ar y cyfan. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o ba mor dda y maent yn cyflawni, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dechrau dewis beth hoffent ei astudio yn eu testun. Er enghraifft, mae Blwyddyn 3 yn dewis pa anifeiliaid i ymchwilio iddynt yn eu testun ar 'ysglyfaethwyr'. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn mynegi eu safbwyntiau ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dibynnu gormod ar oedolion i'w cyfarwyddo nhw yn eu dysgu, ac nid ydynt yn datblygu medrau digonol fel dysgwyr annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgysylltu â'u dysgu yn gadarnhaol ac yn bwrw ymlaen â'u tasgau'n gyflym. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau a gallant ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Maent yn dyfalbarhau'n dda, er enghraifft wrth greu twneli o ddeunyddiau amrywiol yn y cyfnod sylfaen. Mae llawer o ddisgyblion yn arbrofi ag amrywiaeth o ddulliau er mwyn creu'r twnnel cryfaf. Maent yn datblygu'r gallu i ddefnyddio strategaethau 'hunangymorth' a chymorth cyfoedion â hyder cynyddol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 yn defnyddio eu strategaethau gwydnwch yn dda wrth weithio gyda'i gilydd i ddylunio gardd arnofiol ar gyfer yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut i gadw'n iach trwy fwyta diet cytbwys a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod bod ffrwythau a llysiau yn rhan hanfodol o ddiet iach ac yn gwneud dewisiadau iach trwy ddefnyddio'r siop ffrwythau ddyddiol a drefnir gan y disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall buddion cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod y diwrnod ysgol, ac yn ymuno â sesiynau a gynhelir gan ymwelwyr, fel Cymdeithas Criced Cymru.

Mae llawer o ddisgyblion o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 yn frwdfrydig am eu rolau yn cynrychioli disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r clwb eco wedi gwneud cyfraniadau addas at wella gardd yr ysgol a chodi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd ailgylchu, ailddefnyddio deunyddiau ac arbed ynni. Yn ddiweddar, mae aelodau o'r cyngor ysgol wedi trefnu digwyddiad codi arian i wella amgylchedd yr iard chwarae. Fodd bynnag, at ei gilydd, cyfyngedig yw mewnbwn y cyngor ysgol, y ninjas digidol a'r criw Cymraeg o ran ysgogi newid neu wneud gwelliannau o gwmpas yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn deall pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyfraddau presenoldeb wedi aros islaw'r cyfartaledd, ac nid ydynt yn cymharu'n dda â'r rheiny mewn ysgolion eraill tebyg. Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn y bore, er bod ychydig iawn o ddisgyblion yn hwyr yn barhaus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm cynlluniedig yn darparu ystod ysgogol o brofiadau dysgu ar gyfer disgyblion, sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae cynlluniau gwaith mewn cynnwys ffocws cadarn ar alluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau'n fedrus mewn llawer o feysydd y cwricwlwm. Mae ystod o destunau diddorol yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu. Trwy ymweliadau cynlluniedig ag Ynys Y Barri ac ymweliad gan Buster y ci, er enghraifft, mae gwybodaeth disgyblion am y gymuned leol a'r byd ehangach yn datblygu'n dda.

Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu medrau siarad a gwrando disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r staff yn trefnu ystod o brofiadau diddorol i wella medrau llafaredd disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, caiff disgyblion ym Mlynyddoedd 5 a 6 gyfleoedd gwerth chweil i berfformio eu sgriptiau dramâu eu hunain a rhai Shakesperaidd mewn theatrau yn lleol ac yn y gymuned ehangach fel ei gilydd. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i'r fframwaith llythrennedd a rhifedd i sicrhau bod cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, yn enwedig mewn llythrennedd. Ceir darpariaeth bwrpasol i ddatblygu medrau mathemateg a rhifedd

disgyblion, ac mae'n cynorthwyo disgyblion i wneud y cynnydd y maent yn abl i'w wneud.

Mae gan y rhan fwyaf o staff ar draws yr ysgol berthnasoedd gwaith effeithiol gyda disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion mewn dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn llwyddiannus. Mae cynorthwywyr addysgu yn gwybod pryd i ymyrryd ac yn rhoi cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu'n dda, yn arbennig yn nosbarthiadau hŷn yr ysgol. Maent yn cyflwyno amcanion dysgu i ddisgyblion yn effeithiol, ac yn gosod meini prawf llwyddiant pwrpasol ar eu cyfer. Ceir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith, ac mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn synhwyrol i sylwadau ysgrifenedig ac i arddull newydd o adborth llafar digidol.

Mae llawer o athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau ac esboniadau'n glir ac yn gofyn cwestiynau priodol i ymestyn a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni bob amser, yn enwedig y disgyblion mwy abl. Mae hyn yn cyfyngu ar gyflymdra'r dysgu yn y gwersi hyn a chynnydd disgyblion dros gyfnod. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae'r gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i wneud penderfyniadau a dewisiadau am sut maent yn dysgu, ac er mwyn datblygu eu medrau fel dysgwyr annibynnol.

Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn rhoi egwyddorion y cyfnod sylfaen ar waith yn dda. Ceir cydbwysedd pwrpasol rhwng gweithgareddau dan gyfarwyddyd athro a'r rheiny ar gyfer gwaith grŵp, gwaith pâr a gwaith unigol. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau, sy'n ymarferol ac yn adeiladu'n effeithiol ar brofiadau uniongyrchol y disgyblion eu hunain. Er enghraifft, mae disgyblion meithrin yn mynd ar helfa o gwmpas yr ysgol gan ddefnyddio map trysor. At ei gilydd, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r amgylchedd awyr agored i ddatblygu medrau annibynnol addas ar gyfer chwarae dychmygus a chreadigol yn llai amlwg.

Mae staff wedi dechrau addasu eu cynllunio i ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru. Enghraifft dda o hyn yw'r heriau trawsgwricwlaidd diddorol, y mae Blwyddyn 6 yn eu cwblhau bob wythnos. Caiff disgyblion ychydig o gyfleoedd cyfyngedig i gyfrannu syniadau at weithgareddau yn gysylltiedig â thestun. Mae athrawon yn dechrau addasu profiadau dysgu i ymateb i'r awgrymiadau hyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn dylunio carnifal yn seiliedig ar eu testun am Frasil. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at beth maent yn ei ddysgu, a sut, wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae athrawon yn dechrau cynllunio ar gyfer y fframwaith cymhwysedd digidol. Maent yn darparu cyfleoedd addas i alluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau TGCh yn briodol mewn cyd-destunau amrywiol, fel creu cyflwyniad ar ffeithiau am Tutankhamun.

Mae'r ysgol yn cynnal Eisteddfod flynyddol i godi ymwybyddiaeth disgyblion, ac ennyn eu diddordeb, yn nhraddodiadau a diwylliant yr ardal leol a Chymru. Fodd bynnag, ychydig iawn o aelodau staff sy'n modelu'r iaith yn briodol, ac ychydig o athrawon sy'n cynllunio themâu Cymraeg digonol yn eu gwaith testun. Nid yw'r ddarpariaeth yn cynorthwyo disgyblion ar draws yr ysgol i wneud digon o gynnydd mewn datblygu eu medrau Cymraeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn amgylchedd croesawgar a gofalgar ar gyfer ei holl ddisgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda, ac yn ymateb yn gadarnhaol i’w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Maent yn sicrhau ymddygiad da ymhlith disgyblion bob amser.

Mae darpariaeth yr ysgol i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yn nodi anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion personol o oedran cynnar, ac yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth angenrheidiol i lwyddo yn eu gwaith wrth iddynt symud trwy’r ysgol. Mae targedau addysg unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn benodol a mesuradwy, ac mae gan ddisgyblion ran bwysig yn y broses.

Mae dull yr ysgol gyfan ar gyfer monitro cynnydd disgyblion yn drylwyr. Mae arweinwyr ac athrawon yr ysgol yn defnyddio gwybodaeth olrhain yn dda i nodi a darparu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau o ddysgwyr. Er enghraifft, mae staff yn darparu rhaglen effeithiol i gynorthwyo disgyblion sy’n agored i niwed i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol mewn amgylchedd digynnwrf sy’n darparu lle diogel a meithringar ar eu cyfer. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar wella hunan-barch ac mae’n helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu lefelau gwell o hyder ac ymgysylltiad ym mywyd yr ysgol.

Mae’r ddarpariaeth adnoddau dysgu yn darparu amgylchedd meithringar sy’n mynd i’r afael ag anghenion penodol disgyblion yn effeithiol. Mae’r staff yn cynllunio’n ofalus i ddiwallu ystod eang o anghenion addysgol a chymdeithasol, ac yn gweithio gydag ystod eang o wasanaethau arbenigol, sy’n cynorthwyo’r disgyblion a’r rhieni yn llwyddiannus iawn. Mae disgyblion yn y ddarpariaeth adnoddau dysgu yn cymryd rhan lawn yn eu dysgu eu hunain, ac yn asesu eu cynnydd eu hunain yn hyderus.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus mewn gwersi arbenigol rheolaidd wedi’u cynllunio’n dda. Mae’r staff yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yng nghôr yr ysgol ac mewn perfformiadau, gwasanaethau dosbarth ac i chwarae offeryn cerdd. Mae’r profiadau hyn yn datblygu hunanhyder disgyblion, a’u gallu i weithio gyda disgyblion eraill, yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae’n cynllunio’n dda i ddeall pwysigrwydd bod yn gorfforol weithgar trwy wersi addysg gorfforol a chyfleoedd eraill. Er enghraifft, mae mynychu cwrs preswyl awyr agored ym Mlwyddyn 6 yn datblygu medrau corfforol a medrau adeiladu tîm y disgyblion yn effeithiol. Mae’r ysgol yn darparu ystod addas o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy’n cyfoethogi dysgu disgyblion yn llwyddiannus, ac yn cyfrannu’n dda at safon lles y disgyblion. Mae’r ysgol yn darparu ychydig o gyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar faterion sy’n effeithio arnynt drwy waith aelodau o’r clwb eco, ac yn fwy diweddar, y cyngor ysgol. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae’r ysgol yn darparu ychydig iawn o gyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â rolau arwain ac fe gaiff grwpiau llais y disgybl effaith gyfyngedig ar fywyd yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad moesol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn gwneud defnydd da o wersi cynlluniedig i ehangu gwybodaeth

disgyblion am oddefgarwch, a sut y dylent drin pobl eraill.  Mae'r ysgol yn dechrau datblygu dealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth y byd ehangach, fel effaith trychinebau naturiol ar gymunedau ledled y byd.  Fodd bynnag, mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion fyfyrio ar eu credoau eu hunain, a chredoau pobl eraill.

Mae'r pennaeth wedi cyflwyno ystod o strategaethau i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da, gan gynnwys gweithio'n agos â'r awdurdod lleol.  Fodd bynnag, nid yw'r dulliau hyn yn cael cymaint o effaith ag y gallent ei chael ar wella presenoldeb a phrydlondeb cyffredinol disgyblion dros gyfnod.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae'r pennaeth yn arwain ysgol hynod gynhwysol sy'n gwerthfawrogi pob unigolyn yn llwyddiannus.  Caiff gymorth effeithiol gan y dirprwy bennaeth i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithlon o ddydd i ddydd.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff a chymuned yr ysgol yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn saff yn yr ysgol.

Mae'r dirprwy bennaeth yn arwain mentrau pwysig sy'n gwella darpariaeth ar gyfer rheoli ymddygiad ac ansawdd asesu disgyblion.  Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda, a gallant reoli meysydd gwaith yr ysgol pan roddir cyfle iddynt wneud hynny.  Er enghraifft, mae'r cyfarfodydd cynnydd disgyblion a gyflwynwyd yn ddiweddar yn sicrhau bod pob un o'r athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, a'r cynnydd a wnânt yn eu dosbarth.  Mae'r ysgol yn dechrau mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella, fel rhoi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith a datblygu medrau mewn TGCh, yn briodol.  Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr bob amser yn rhoi digon o sylw i feysydd allweddol i'w gwella, fel y cynnydd a wna disgyblion yn eu medrau Cymraeg.

Mae uwch arweinwyr yn ymgymryd ag ystod helaeth o weithgareddau monitro sy'n eu helpu i werthuso ansawdd gwaith yr ysgol yn bwrpasol.  Defnyddiant ystod eang o wybodaeth uniongyrchol yn dda, gan gynnwys dadansoddi perfformiad disgyblion, arsylwadau gwersi, teithiau dysgu, gwrando ar ddysgwyr a chraffu ar lyfrau yn fanwl, i lywio'r broses hunanwerthuso.  Mae'r prosesau hyn yn eu helpu i gael dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol.  Er enghraifft, maent wedi nodi bod angen gwella safon a graddau ysgrifennu disgyblion ac mae'r fenter i ddatblygu'r celfyddydau mynegiannol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn dda iawn.  Fodd bynnag, dros gyfnod, mae diffyg trylwyredd yn y trefniadau monitro rheolaidd i werthuso effaith mentrau a darpariaeth bresennol.  O ganlyniad, mae'r angen i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu fel dysgwyr annibynnol a lleihau'r orddibyniaeth ar daflenni gwaith yn parhau.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu effeithiol.  Mae'r system rheoli perfformiad ar gyfer staff yn drylwyr a gall pob un o'r staff elwa ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol.  Mae'r rhain wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu arbenigedd staff ac ar wella deilliannau disgyblion.  Er enghraifft, bu hyfforddiant i wella medrau rhifedd disgyblion, yn ogystal â'r rhaglenni i gefnogi lles disgyblion sy'n agored i

niwed, yn llwyddiannus.  Mae’r ysgol yn gweithio’n dda iawn gydag ysgolion eraill yn ei chlwstwr i ddatblygu arfer broffesiynol.  Mae athrawon yn dechrau defnyddio ffordd fwy effeithiol o roi adborth i ddisgyblion, gan ddefnyddio codau ymateb cyflym o ganlyniad i hyfforddiant a gododd o weithio gydag ysgol gyfagos.

Mae llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn cynnig cymorth gwerthfawr.  Er enghraifft, maent yn ymwybodol nad yw data’r ysgol ar bresenoldeb yn cymharu’n dda ag ysgolion eraill tebyg.  Maent yn goruchwylio penderfyniadau am wariant yn fanwl iawn.  Maent hefyd yn dwyn uwch arweinwyr yr ysgol i gyfrif am benderfyniadau’n ymwneud â’r safle a’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn effeithiol.  Mae’r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Mae’r ysgol yn defnyddio’i hardaloedd dan do deniadol i gefnogi addysgu a dysgu’n dda.  Mae penderfyniadau’r ysgol am wariant a’i chynllunio ariannol eang yn cysylltu’n dda â’i blaenoriaethau strategol, ac yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion tymor byr a thymor hir fel ei gilydd.  Er enghraifft, bu gwelliannau buddiol diweddar yn yr ardal awyr agored ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen.  Mae’r ysgol yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn dda i gynorthwyo disgyblion sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, er enghraifft i wella medrau darllen a medrau cymdeithasol trwy sesiynau ymyrraeth.  O ganlyniad, gall y disgyblion targedig elwa’n llawn ar yr un profiadau â disgyblion eraill, ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2019